

## **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

### **Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'n fras fwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r dogfennau eraill y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w llunio, neu y byddai'n ofynnol iddynt eu llunio, o dan ddarpariaethau Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Fe'i paratowyd er mwyn helpu pwyllgorau wrth iddynt graffu ar y Bil a dylid ei darllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â hi.

## **Adran 5 – Pwerau i ddiwygio adrannau 3 a 4**

### **Gweithdrefn: cadarnhaol drafft**

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio'r adrannau sy'n nodi'r meysydd dysgu a phrofiad, yr elfennau mandadol a'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i ychwanegu meysydd dysgu a phrofiad, elfennau mandadol a sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol newydd; neu ddileu un o'r meysydd, elfennau neu sgiliau hynny, neu ddiwygio un.

Rhagwelir y gallai fod angen diwygiadau o'r fath dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol disgyblion ac, yn wir, gymdeithas. Bydd angen i'r agwedd hon ar y cwricwlwm ddatblygu mewn ymateb i newid mewn amgylchiadau. Felly, ystyrir ei bod yn briodol gwneud y newidiadau hynny, os bydd angen, drwy Reoliadau.

## **Adran 6 – Cod Yr Hyn sy'n Bwysig**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod yr Hyn sy'n Bwysig, sy'n nodi'r cysyniadau allweddol ym mhob maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm. Dim ond ar ôl iddo gael ei gyflwyno gerbron y Senedd y gellir cyhoeddi'r Cod ac ni chaiff ei gyhoeddi os bydd y Senedd, o fewn 40 diwrnod, yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo.

Bwriad sylfaenol y polisi yw nodi'r cysyniadau allweddol y mae'n rhaid i ysgolion ymdrin â nhw yn eu meysydd dysgu a phrofiad. Bydd hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm. Mae pob maes dysgu a phrofiad wedi'i drefnu yn ôl nifer y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig sy'n ymdrin â'r cysyniadau allweddol yn y maes hwnnw. Er enghraifft, ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd mae pedwar datganiad o'r fath sy'n ymdrin â'r system rifau; algebra, geometreg a data ac ystadegau. Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau rhywfaint o gysondeb ledled y wlad am fod gan ysgolion ddyletswydd i sicrhau bod eu cwricwla (adran 6(2)) a'u haddysgu a'u dysgu (adran 6(3)) yn rhoi sylw i God yr Hyn sy'n Bwysig. Mae'n debygol y gall fod angen diwygiadau dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol disgyblion, newidiadau i gynnwys maes dysgu a phrofiad, megis datblygiadau o ran

gwybodaeth ddisgyblaethol, neu'n wir newidiadau mewn cymdeithas. Felly, mae'n briodol cyhoeddi'r manylion hyn fel Cod yn hytrach na'u cynnwys yn y Bil.

Datblygwyd y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig gan ymarferwyr fel rhan o'r broses o ddatblygu fframwaith y cwricwlwm ac fe'u cyhoeddwyd gyntaf er mwyn cael adborth arnynt ym mis Ebrill 2019. Wedyn, cawsant eu mireinio a'u cyhoeddi eto fel rhan o ganllawiau'r cwricwlwm ym mis Ionawr 2020 er mwyn galluogi ysgolion i gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Ni all cwricwlwm gael ei fabwysiadu gan ysgol na lleoliad oni fydd yn bodloni gofynion y Cod.

## **Adran 7 – Y Cod Cynnydd**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod Cynnydd sy'n nodi'r hyn y bydd angen i gwricwlwm ei wneud er mwyn sicrhau cynnydd disgyblion. Dim ond ar ôl iddo gael ei gyflwyno gerbron y Senedd y gellir cyhoeddi'r Cod ac ni chaiff ei gyhoeddi os bydd y Senedd, o fewn 40 diwrnod, yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo.

Bwriedir i'r Cod Cynnydd sicrhau y bydd cwricwlwm pob ysgol yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd o ran eu dysgu. Mae'n rhaid i bob cwricwlwm (adran 7(2)) a'r addysgu a'r dysgu (adran 7(3)) mewn ysgol alluogi disgyblion i wneud cynnydd priodol a dim ond os yw'n cyd-fynd â'r Cod y gall wneud hynny.

Mae hyn yn rhoi mwy o fanylion am y disgwyliadau ynghylch cynnydd disgyblion ac mae'n debygol y gall fod angen diwygiadau dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol disgyblion neu newidiadau yn ein dealltwriaeth o ddatblygiad a chynnydd disgyblion. Felly, mae'n briodol cyhoeddi'r manylion hyn fel cod yn hytrach na'u cynnwys yn y Bil.

Cyhoeddwyd Egwyddorion Cynnydd ym mis Ionawr 2020 fel rhan o fframwaith y cwricwlwm er mwyn galluogi ysgolion i gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Fe'u ceir yn y canllawiau cyffredinol ac ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Gyda'i gilydd, byddant yn ffurfio rhan o'r Cod Cynnydd.

Tybir nad yw cwricwlwm yn darparu ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod.

## **Adran 8 – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) sy'n nodi'r themâu a'r materion y mae'n rhaid i ysgol eu cynnwys yn ei darpariaeth ACRh. Dim ond ar ôl iddo gael ei gyflwyno

gerbron y Senedd y gellir cyhoeddi'r Cod ac ni chaiff ei gyhoeddi os bydd y Senedd, o fewn 40 diwrnod, yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo.

Mae hyn yn sicrhau y bydd cwricwlwm pob ysgol yn cynnwys yr hyn a nodir yn y Cod.

Bydd y Cod ACRh yn disgrifio'r dysgu craidd lefel uchel y bydd disgyblion a phlant yn ymgymryd ag ef yn elfen orfodol ACRh.

Bydd y Cod ACRh yn creu gofynion statudol mewn perthynas â'r hyn y mae'n rhaid ei addysgu fel rhan o ACRh, a fydd yn sicrhau bod dysgu yn briodol i oedran a datblygiad disgyblion, a bydd yn sicrhau tryloywder o ran cynnwys ar gyfer dysgwyr 3-16 oed.

Rhagwelir y gallai fod angen diwygio'r Cod dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol disgyblion neu newidiadau mewn cymdeithas. Er mwyn ymateb i newid mewn amgylchiadau, ystyrir ei bod yn briodol cyhoeddi'r manylion hyn fel Cod yn hytrach na'u cynnwys yn y Bil.

Mae'r Cod ACRh wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan weithgor gyda ystod o rhanddeiliaid ac ymgynghorir arno yn ystod hydref 2020.

Mae'n rhaid i'r addysgu, y dysgu a'r cynnwys ar gyfer ACRh gyd-fynd â'r Cod.

### **Adran 13 – Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm ar gyfer addysg feithrin a ariennir nas cynhelir.**

#### **Gweithdrefn: dim gweithdrefn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, yn wahanol i ysgolion, nad oes gan leoliadau gofal plant a ariennir i ddarparu addysg gynnar i blant 3-4 oed yr adnoddau, y sgiliau cynllunio cwricwlwm na'r gallu i ddatblygu cwricwlwm a threfniadau asesu. Felly, bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i lunio trefniadau'r cwricwlwm ar gyfer y lleoliadau hyn. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r cwricwlwm hwn yn barhaus a chyhoeddi unrhyw fersiynau diwygiedig ohono yn y dyfodol.

Bydd gan leoliadau a ariennir yr hyblygrwydd i fabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a gynlluniwyd gan Weinidogion Cymru, cynllunio eu rhai eu hunain neu weithio gydag eraill – megis awdurdodau lleol neu ysgolion – ar gwricwlwm i'w fabwysiadu.

Yn seiliedig ar drafodaethau â rhanddeiliaid, er gwaethaf yr hyblygrwydd a ganiateir i fabwysiadu cwricwlwm nas cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl i lawer o leoliadau a ariennir fabwysiadu'r cwricwlwm y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu gyda'r sector yn hytrach na mabwysiadu trefniadau ar wahân neu wahanol.

Ym mis Mehefin dechreuodd gwaith datblygu cychwynnol ar 'lwybrau galluogi' er mwyn mynd i'r afael â'r newidiadau datblygiadol cyflym mewn plant yn ystod y cyfnod dysgu sy'n arwain at Gam Cynnydd 1. Bydd y "llwybrau galluogi" hyn wedi'u llunio ar gyfer ysgolion er mwyn ategu canllawiau Cwricwlwm i Gymru a, lle y bo'n briodol, i'w defnyddio gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol y mae'n bosibl na fyddant byth yn datblygu y tu hwnt i Gam Cynnydd 1. Byddant hefyd yn sail i drefniadau'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys penaethiaid, consortia rhanbarthol, Estyn, athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol, ymarferwyr ADY ac ymarferwyr nas cynhelir er mwyn datblygu'r gwaith hwn. Mae dau weithdy wedi'u cynnal a bwriedir cynnal gweithdai pellach yn ystod gweddill y flwyddyn ac yn 2021 nes i'r gwaith datblygu – gan gynnwys ymgynghoriadau – gael ei gwblhau a nes i'r cwricwlwm gael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

## **Adran 17 – Pwerau i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu, adolygu a diwygio cwricwlwm.**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae adran 17 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch camau y mae angen i ysgol neu leoliad eu cymryd cyn mabwysiadu cwricwlwm. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n pennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i ysgol neu leoliad fabwysiadu ei chwricwlwm/gwricwlwm, a'r pŵer i nodi amgylchiadau ychwanegol lle mae'n rhaid diwygio cwricwlwm.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Rheoliadau sy'n nodi dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid mabwysiadu cwricwlwm. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ysgolion a darparwyr ynglŷn â'r amserlen, yn sicrhau cysondeb ac yn ei gwneud yn bosibl i'r broses o drosglwyddo i drefniadau'r cwricwlwm newydd gael ei hamserlennu ym mhob rhan o'r sector addysg. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag yn y Bil er mwyn rhoi hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a all effeithio ar y dyddiad hwn yn nes at yr amser. Y bwriad yw pennu dyddiad cyn y 1af o fis Medi 2022 fel bod yn rhaid i'r cwricwlwm gael ei fabwysiadu mewn da bryd cyn iddo gael ei weithredu.

Nid yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Rheoliadau mewn perthynas â'r pwerau eraill. Gellir defnyddio Rheoliadau o'r fath, er enghraifft, i nodi camau y bydd angen i ysgol neu leoliad eu cymryd er mwyn penderfynu a yw cwricwlwm yn addas i'w fabwysiadu neu ei ddiwygio. Credwn fod darpariaeth ddigonol ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r materion hyn ond mae'n bosibl, fodd bynnag, y bydd angen arfer y pwerau hyn os daw'n amlwg, wrth i ymarfer ddatblygu, nad yw diwygiadau yn cael eu gwneud mewn amgylchiadau lle y dylent gael eu gwneud. Neu mae hefyd yn bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn newid y cwricwlwm yn sylweddol yn y dyfodol

ac yn defnyddio'r pwerau hyn i sicrhau bod y cwricwla yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

Rydym wedi ceisio cynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil, ond nid oes modd rhagweld sut yn union y bydd ymarfer yn datblygu. Felly, mae angen y pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ymarferol rhag ofn y daw'n amlwg bod y gofynion ar wyneb y Bil yn annigonol.

## **Adran 18 – Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch y cwricwlwm a chrynodebau**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'n ofynnol i bob ysgol a lleoliad gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt. Mae adran 18 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau er mwyn nodi gwybodaeth y bydd angen ei darparu yn y crynodeb hwnnw.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch cyhoeddi crynodeb. Gellid arfer y pwerau hyn, er enghraifft, i'w gwneud yn ofynnol i'r crynodeb gael ei gyhoeddi ar wefan ysgol neu ei anfon at rieni a gofalwyr, neu i'w gwneud yn ofynnol iddo gael ei gyhoeddi erbyn dyddiad penodol.

Mae'r darpariaethau allweddol wedi'u cynnwys yn y Bil mewn perthynas â mabwysiadu ac adolygu. Dim ond er mwyn nodi rhai manylion technegol am y materion a nodwyd uchod y bydd angen y Rheoliadau. Yn ein barn ni, y lle gorau i nodi'r manylion hynny yw yn y Rheoliadau. Bydd pŵer gwneud rheoliadau yn ein galluogi i ddiwygio'r manylion hynny dros amser fel y bo'n briodol.

Diben cael y pŵer hwn yw sicrhau cysondeb o ran pa wybodaeth sydd ar gael am gwricwlwm ysgol a sut a phryd y caiff y wybodaeth hon ei chyfleu i rieni a gofalwyr a darpar rieni a gofalwyr. Bydd ymdrin â hyn mewn is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn bosibl i'r dull o bennu'r hyn y dylid ei gynnwys mewn crynodeb, a gofynion cyhoeddi, ddatblygu wrth iddi ddod yn gliriach pa wybodaeth sy'n ddefnyddiol ac yn angenrheidiol a pha ddulliau cyhoeddi sydd fwyaf effeithiol.

Ni fwriedir gwneud y Rheoliadau hyn wrth weithredu'r cwricwlwm. Y bwriad yw gweld sut mae ymarfer yn datblygu a chaiff Rheoliadau eu gwneud os daw'n amlwg bod crynodebau o gwricwla yn amrywio'n sylweddol neu nad yw'r crynodebau hyn yn cynnwys gwybodaeth hollbwysig y byddai ei hangen ar gyfer rhieni a gofalwyr. Rheswm arall dros arfer y pwerau hyn fyddai pe bai ysgolion a lleoliadau yn gofyn am ddull gweithredu cyson er mwyn eu helpu i lunio crynodebau o'r fath.

## **Adran 25(1) – Pŵer i osod rhagor o ofynion ar gyfer cwricwlwm ar gyfer disgyblion 14-16 oed**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae adran 25 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru nodi rhagor o ofynion ar gyfer cwricwlwm ar gyfer disgyblion 14-16 oed. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i'w gwneud yn ofynnol i rywbeth gael ei gynnwys mewn cwricwlwm neu i rywbeth beidio â chael ei gynnwys.

Gellir defnyddio'r pŵer hwn i'w gwneud yn ofynnol i gwrs astudio gael ei ddarparu gan ysgol i'r grŵp oedran hwn.

Rhagwelir y gallai Rheoliadau nodi gofynion o ran isafswm neu uchafswm nifer y cyrsiau y gallai disgyblion 14-16 oed eu dilyn.

Diffinnir cwrs astudio yn y Bil fel cwrs addysg neu hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster o'r fath a nodir yn adran 25(5) - yn y bôn, un a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru neu a ddynodwyd gan Cymwysterau Cymru neu Weinidogion Cymru.

Ni fwriedir defnyddio'r pŵer hwn ar y dechrau am ein bod yn disgwyl i'r gofyniad yn y Bil i gwricwlwm fod yn eang ac yn gytbwys fod yn ddigonol. Fodd bynnag, os bydd tystiolaeth bod rhai ysgolion yn cynnig cwricwlwm cyfyngol i'r grŵp oedran hwn, neu nad ydynt yn darparu cyrsiau astudio sy'n arwain at gymwysterau penodol, yna gellir defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

### **Adran 26(1) – Datgymhwyso Saesneg fel elfen mandadol: ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin a gynhelir**

Mae Saesneg yn elfen mandadol yn y Bil. Rhoddir pŵer i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ysgol benderfynu datgymhwyso'r gofyniad gorfodol hwn hyd at saith oed. Y rheswm dros ddatgymhwyso a nodir yn y Bil yw cynnal neu ddatblygu lefelau rhuglder disgyblion yn Gymraeg.

Y bwriad yma yw galluogi ysgol i ddarparu addysg drochi Gymraeg hyd at saith oed. Ystyrir bod hyn yn rhan o ddyletswydd ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn briodol i'w dysgwyr. Bwriedir i'r darpariaethau alluogi ysgolion i drochi disgyblion yn y Gymraeg fel y gwnânt ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid nodi'r penderfyniad hwn a'r achosion a'r amgylchiadau y mae'n ymwneud â nhw yn y crynodeb cyhoeddedig o gwricwlwm yr ysgol. Mae'n rhaid iddo hefyd nodi, ar gyfer yr achosion a'r amgylchiadau hynny, unrhyw ddarpariaeth a all gael ei gwneud ar gyfer addysgu Saesneg.

Gall y penderfyniad hwn gael ei ddirymu gan y pennaeth a'r corff llywodraethu.

### **Adran 27(1) Datgymhwyso Saesneg fel elfen mandadol: addysg feithrin a ariennir nas cynhelir**

Yr un pŵer yw hwn i ddatgymhwyso'r elfen mandadol â'r pŵer a nodwyd uchod ar gyfer addysg feithrin a ariennir nas cynhelir. Yma rhoddir y pŵer i ddarparwr addysg o'r fath.

### **Adran 33(2) Pŵer i ddatgymhwyso'r ddyletswydd i weithredu dewis disgybl**

Mae'r adran hon yn nodi ar ba sail y gall pennaeth wrthod penderfyniad disgybl i ymgymryd ag addysgu a dysgu a ddewiswyd gan y disgybl o dan adran 24. Mae is-adran (2) o'r adran hon yn rhoi'r pŵer i benaethiaid benderfynu gwrthod gweithredu dewis disgybl o ran addysgu a dysgu.

Mae'r Bil yn nodi bod pennaeth yn gallu gwrthod gweithredu dewis disgybl o ran addysgu a dysgu am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r addysgu na'r dysgu yn addas, o ystyried cyrhaeddiad addysgol y disgybl
- Nid yw'n ymarferol darparu'r addysgu a'r dysgu, oherwydd dewisiadau eraill a wnaed gan y disgybl o dan adran 24.
- Byddai'r amser a dreulir yn teithio i'r man lle y byddai'r dysgu yn cael ei ddarparu yn cael effaith negyddol ar addysg y disgybl
- Byddai costau anghymesur yn gysylltiedig â sicrhau'r addysgu a'r dysgu
- Byddai risg annerbyniol i iechyd a diogelwch y disgybl, neu eraill, pe bai'r addysgu a'r dysgu yn cael eu sicrhau.

Mae hefyd yn bosibl i bennaeth wrthdroi penderfyniad i ganiatáu i ddisgybl ymgymryd ag addysgu a dysgu a ddewiswyd ganddo, ar ôl iddo ddechrau, ond dim ond am y rhesymau mwy cyfyngedig a nodir isod:

- Cost anghymesur
- Risg annerbyniol i iechyd a diogelwch disgybl neu eraill

### **Adran 33(6) – Pŵer i ddatgymhwyso'r ddyletswydd i weithredu dewis disgybl**

#### **Gweithdrefn: cadarnhaol drafft**

Mae'r adran hon yn nodi ar ba sail y gall pennaeth wrthod penderfyniad disgybl i ymgymryd ag addysgu a dysgu a ddewiswyd gan y disgybl o dan adran 24. Mae is-adran (6) o'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhesymau hyn drwy Reoliadau.

Nodir uchod ar ba sail y gall pennaeth wrthod gweithredu dewis disgybl o ran addysgu a dysgu.

Rhagwelir y gallai fod angen i'r rhesymau dros wrthod a nodwyd uchod ddatblygu dros amser. Mae'n bosibl y bydd rhesymau dros wrthod yn y dyfodol yn ymwneud â ph'un a fydd dewis unigol yn cynnig digon o ehangder a chydbwysedd ai peidio. Yn ein barn ni, mae'n briodol bod Rheoliadau yn gallu diwygio'r manylion hyn yn ôl yr angen.

### **Adran 34(5) – Pŵer i ddatgymhwyso'r ddyletswydd i weithredu dewis disgybl: atodol**

## **Gweithdrefn: negyddol**

Mae adran 34 o'r Bil yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i bennaeth ei rhoi ac i bwy pan wneir penderfyniad o dan adran 33 i beidio â gweithredu dewis disgybl o ran cwrs astudio. Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r pennaeth hysbysu'r disgybl a'i riant o'r penderfyniad ac esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad, pa addysgu a dysgu a gynigir yn ei le a'r hawl i ofyn am adolygiad neu apelio.

Mae is-adran 34(5) o'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach drwy Reoliadau. Rhagwelir y gallai Rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn wneud darpariaeth ynghylch materion gweithdrefnol megis terfynau amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r pennaeth wneud penderfyniad, neu ynghylch y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud penderfyniad o'r fath.

Ni fwriedir gwneud rheoliadau mewn perthynas â hyn ar y dechrau. Credwn fod y gweithdrefnau a nodir ar wyneb y Bil yn glir ynghylch cyfrifoldebau ysgolion yn hyn o beth.

Fodd bynnag, os daw'n amlwg dros amser fod disgyblion a rhieni yn aros yn rhy hir mewn perthynas â phenderfyniad y pennaeth neu fod y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan ysgolion yn peri anawsterau, yna byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i egluro'r broses a sicrhau dull gweithredu cyson.

## **Adran 35(4) – Adolygiadau ac apeladau sy'n ymwneud â dewis disgybl**

Rhoddir y pŵer cyfarwyddo hwn i gorff llywodraethu ysgol ymdrin ag apeladau yn erbyn penderfyniad pennaeth i beidio â gweithredu dewis disgybl o ran cwrs astudio o dan adran 33 ac mae'n rhoi'r pŵer iddo weithredu ei benderfyniad.

Rhoddir pŵer i'r corff llywodraethu gyfarwyddo'r pennaeth i gymryd camau os bydd o'r farn bod hynny'n briodol a bod gan y pennaeth ddyletswydd i gydymffurfio. Er enghraifft, yn sgil apêl lwyddiannus, byddai'r corff llywodraethu yn cyfarwyddo'r pennaeth i weithredu dewis y disgybl o ran cwrs astudio. Wedyn, byddai dyletswydd ar y pennaeth i weithredu'r penderfyniad hwn.

## **Adran 40(1) Gwaith datblygu ac arbrofion.**

### **Gweithdrefn: dim gweithdrefn**

Mae adran 40 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ysgol. Gall y cyfarwyddyd ddatgymhwyso unrhyw un o'r gofynion gweithredu a nodir yn adrannau 29-32 neu ddarparu ar gyfer addasu'r gofynion gweithredu hynny o ran y ffordd y maent yn cael eu cymhwyso at yr ysgolion.

Dim ond at ddibenion arbrofol neu ddatblygiadol y gellir rhoi'r cyfarwyddyd hwn.

Mae adran 41 yn nodi dau amod y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi cyfarwyddyd o dan adran 40.

Yr amod cyntaf yw y bydd y cwricwlwm a roddir ar waith, o ganlyniad i'r cyfarwyddyd, yn galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu fel y nodir yn y pedwar diben; yn cynnig cynnydd priodol; yn briodol i oedran, gallu neu ddoniau'r disgyblion neu'r plant; yn ystyried eu hanghenion dysgu ychwanegol (os oes rhai); ac yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys.

Yr ail amod, yn achos ysgol, yw bod yr awdurdod lleol wedi gwneud cais am y cyfarwyddyd gyda chytundeb y corff llywodraethu, neu fel arall; neu, os na fydd unrhyw gais wedi'i wneud, fod y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol yn cytuno y dylid rhoi'r cyfarwyddyd. Yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyr, nid oes unrhyw rôl i'w chwarae gan yr awdurdod lleol yn hyn o beth.

Yn achos lleoliadau a ariennir nas cynhelir, yr awdurdod lleol a'r lleoliad sy'n gorfod derbyn cynnig ar gyfer cyfarwyddyd a gyflwynwyd gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru.

Mae adran 42 yn rhoi mwy o fanylion am gyfarwyddyd o dan adran 40: mae'n rhaid ei wneud yn ysgrifenedig a'i gyhoeddi, ac mae'n rhaid i'r ysgolion a'r lleoliadau y mae'n gymwys iddynt gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm y byddant yn ei weithredu o ganlyniad i'r cyfarwyddyd.

Mae natur y pŵer hwn yn golygu mai dim ond o dan amgylchiadau prin lle rydym o'r farn y byddai'n fuddiol treialu rhywbeth newydd, y caiff ei ddefnyddio. Mae'r pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i wneud hyn.

## **Adran 43(4) - Disgyblion a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae adran 43 yn ymdrin â'r rhyngweithio rhwng y cwricwlwm a chynllun datblygu unigol ("CDU") a lunnir neu a gynhelir gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae hefyd yn ymdrin â darpariaeth addysgol arbennig sydd wedi'i chynnwys mewn cynllun addysg, iechyd a gofal ("AIG") o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Diben hyn yw mynd i'r afael â'r sefyllfa lle mae plant o Loegr yn mynd i ysgol neu leoliad yng Nghymru.

Mae'r adran hon yn galluogi CDU neu AIG i ddatgymhwyso neu addasu gofynion sy'n ymwneud â gweithredu cwricwlwm, ar gyfer y disgybl neu'r plentyn y mae'r CDU neu'r AIG yn ymwneud ag ef.

Ond mae hyn yn amodol ar fodloni amodau penodol: mae'n rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol fodloni ei hun y bydd y cwricwlwm a ddarperir yn galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu fel y disgrifir yn y pedwar diben; ei fod yn cynnig cynnydd priodol; ei fod yn briodol i oedran, gallu neu ddoniau'r disgybl neu'r plentyn; a'i fod yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys.

Mae is-adran (4) o adran 43 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi amodau ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i CDU neu AIG ddatgymhwyso neu addasu gofynion o ran y cwricwlwm.

Ni fwriedir gwneud Rheoliadau yn hyn o beth ar y dechrau am ein bod yn credu y dylai'r darpariaethau ar wyneb y Bil fod yn ddigonol i nodi'r amodau sydd angen eu bodloni wrth ddatgymhwyso neu addasu cwricwlwm ar gyfer disgybl unigol. Fodd bynnag, os daw'n amlwg bod y ddarpariaeth hon yn cael ei gordefnyddio neu fod rhannau penodol o'r cwricwlwm yn cael eu datgymhwyso'n aml, yna gallai Rheoliadau o dan y pŵer hwn nodi amodau ychwanegol. Rheoliadau yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn am y bydd angen inni weld sut mae ymarfer yn datblygu er mwyn nodi a fydd angen unrhyw amodau ychwanegol ac, os felly, pa amodau sydd eu hangen.

## **Adran 44(1) a (2) – Eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion a phlant unigol**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n nodi achosion ac amgylchiadau lle y gall pennaeth, neu ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, benderfynu datgymhwyso'r cwricwlwm neu addasu'r ffordd y caiff ei weithredu ar gyfer disgybl neu blentyn. Rhagwelir y gallai Rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth neu'r darparwr fodloni ei hun nad yw'r amgylchiadau sy'n golygu bod angen cymryd cam o'r fath yn debygol o newid o fewn y cyfnod penodedig.

Mae'n rhaid i unrhyw Rheoliadau a wneir o dan yr adran hon osod amodau fel y'u nodir yn adran 44(3), sef: mai dim ond os bydd y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer y disgybl neu'r plentyn yn galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben; yn sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn cynnig cynnydd priodol; yn addas i oedran, gallu neu ddoniau'r disgybl neu'r plentyn; yn ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd gan y disgybl neu'r plentyn; ac yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys, y gellir datgymhwyso gofynion gweithredu'r cwricwlwm.

Mae adran 44(4) yn galluogi'r Rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i amodau ychwanegol gael eu bodloni cyn i benderfyniad sy'n datgymhwyso'r cwricwlwm neu'n addasu'r ffordd y mae'n cael ei weithredu gael ei wneud gan bennaeth neu ddarparwr.

Mae adran 45 o'r Bil yn rhoi mwy o fanylion am Rheoliadau o dan adran 44. Mae'n nodi na all Rheoliadau ganiatáu i benderfyniad gael ei wneud ar sail anghenion dysgu ychwanegol disgybl neu blentyn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau nodi y bydd penderfyniad yn weithredol am gyfnod penodol o hyd at chwe mis, neu am gyfnod parhaus y mae'n rhaid ei derfynu o fewn chwe mis. Mae'n galluogi'r Rheoliadau i wneud darpariaeth wahanol ynghylch am ba hyd y bydd ail benderfyniad neu benderfyniad dilynol mewn perthynas â'r un disgybl neu blentyn mewn grym, ar yr amod bod yr ail benderfyniad neu'r penderfyniad dilynol yn bodloni meini prawf penodol ynghylch pryd y caiff ei wneud.

Caiff y Rheoliadau alluogi'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad hwn i amrywio neu ddiddymu'r penderfyniad a chânt bennu achosion, amgylchiadau neu amodau ar gyfer gwneud hyn.

Diben y Rheoliadau hyn yw ei gwneud yn bosibl i eithriadau dros dro gael eu gwneud ar gyfer disgyblion nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft os bydd disgybl wedi bod yn sâl ers peth amser.

Mae adrannau 44 a 45 yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002.

### **Adran 47(8) – Apeliadau yn erbyn Eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol**

#### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae adran 47 o'r Bil yn darparu ar gyfer apeliadau gan ddisgybl neu riant o dan yr amgylchiadau canlynol: mae pennaeth wedi penderfynu gwneud, amrywio neu ddiddymu penderfyniad fel y disgrifir yn adran 44; nid yw pennaeth wedi gwneud penderfyniad ar ôl cael cais i wneud hynny.

Mae is-adran (8) o adran 47 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach yn erbyn yr apeliadau hyn mewn rheoliadau. Rhagwelir y byddai'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn i'w dilyn a'r terfynau amser ar gyfer apeliadau. Y lle mwyaf addas i gynnwys manylion am hynny yw mewn Rheoliadau am eu bod yn fanylion technegol a all newid dros amser.

Am fod hyn yn adlewyrchu deddfwriaeth bresennol, rydym yn tybio bod ysgolion eisoes wedi rhoi proses ar waith. Felly, ni ddisgwylir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio ar y dechrau i wneud darpariaeth bellach ynghylch y broses apelio ond os bydd materion yn codi dros amser wrth i ymarfer ddatblygu, yna gellid defnyddio'r pŵer hwn i nodi rhagor o fanylion os bydd angen. Rydym yn ystyried a fyddai'n ddefnyddiol defnyddio'r pwerau hyn ar y dechrau i wneud Rheoliadau sy'n nodi terfynau amser ar gyfer apeliadau.

### **Adran 48(6) – Apeliadau yn erbyn eithriadau dros dro ar gyfer plant unigol**

#### **Gweithdrefn: negyddol**

Yr un pwerau yw'r rhain â'r rhai a nodir yn Adran 47(8) ond ar gyfer darparwyr a ariennir nas cynhelir a'r un yw ein bwriad.

### **Adran 50(1) – Pŵer i wneud darpariaeth bellach ar gyfer eithriadau pellach**

#### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r adan hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n datgymhwyso neu'n addasu gofynion gweithredu'r cwricwlwm mewn achosion neu

amgylchiadau penodol. Gellid defnyddio'r Rheoliadau i ganiatáu i unigolyn arall - er enghraifft pennaeth - arfer ei ddisgresiwn ynghylch datgymhwyso neu addasu gofyniad.

Bwriedir i'r ddarpariaeth hon adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol yn adran 112 o Ddeddf Addysg 2002. Defnyddiwyd y pŵer hwnnw i ddatgymhwyso agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol wrth dreialu'r cyfnod sylfaen mewn ysgolion penodol. Rhagwelir y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio at ddibenion tebyg.

Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ymdrin â sefyllfaoedd lle y comisiynir rhan o gwricwlwm disgybl, ac yr ymgymerir â hi o bosibl, mewn lle arall, er enghraifft mewn sefydliad addysg bellach, oherwydd ei ddiddordebau penodol. Efallai y bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran trefniadau'r cwricwlwm, er mwyn i hyn allu digwydd. Gall y rhain fod yn amgylchiadau unigoledd iawn ac, fel arfer, mae'n well caniatáu i benaethiaid benderfynu. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i wneud Rheoliadau i nodi'r amgylchiadau lle y gellir addasu neu ddatgymhwyso'r cwricwlwm er mwyn sicrhau na chaiff cynnwys y cwricwlwm ei addasu na'i ddatgymhwyso'n anghymesur.

Gweinidogion Cymru a fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio'r pŵer hwn ai peidio pan fo cwricwla ysgol unigol ar gael. Bydd hyn yn nodi a oes angen defnyddio'r pŵer hwn ai peidio.

## **Adran 58(1) – Pŵer i wneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau asesu.**

### **Gweithdrefn: negyddol**

O dan yr adran hon mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud Rheoliadau ynghylch trefniadau asesu sy'n ymwneud â'r cwricwlwm perthnasol fel y'u diffinnir yn adrannau 11, 12, 15, 16, 52, 53 a 55 o'r Bil. Mewn perthynas â'r cwricwla hyn, mae'r trefniadau hyn ar gyfer asesu'r canlynol: y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a phlant; y camau nesaf yn eu cynnydd; yr addysgu a'r dysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Caiff y Rheoliadau hyn ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol wneud a gweithredu trefniadau asesu; nodi'r trefniadau hyn; gwerthuso eu heffeithiolrwydd; eu hadolygu'n barhaus; a'u diwygio. O dan y Rheoliadau hyn, person perthnasol yw pennaeth, corff llywodraeth ysgol, darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion, pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion, person sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.

Y bwriad yma yw gwneud Rheoliadau er mwyn i ysgolion, lleoliadau a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol wneud trefniadau asesu i gefnogi eu cwricwlwm.

Ar y cyfan, ni fyddai'r Rheoliadau hyn yn rhy ragnodol. Byddant yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cyfrifol ystyried y trefniadau asesu sydd fwyaf priodol i'w gwricwlwm, ei gyd-destun a'i ddysgwyr lleol, a'u rhoi ar waith. Bydd y canllawiau statudol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cyhoeddi ar asesu o dan adran 66 o'r Bil yn helpu i gefnogi

ysgolion drwy ddarparu egwyddorion allweddol er mwyn sicrhau bod rhywfaint o gysondeb o ran eu dull gweithredu.

Bydd amrywiad bach yn achos lleoliadau a ariennir nas cynhelir am y disgwyli'r canllawiau fod yn anstatudol. Rydym yn cydnabod, yn yr un ffordd ag y mae'n afresymol disgwyl i bob lleoliad o'r fath lunio ei gwricwlwm ei hun, gellir dweud yr un peth am drefniadau asesu. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cwricwlwm a threfniadau asesu newydd ar gyfer y sector.

Bwriedir defnyddio'r Rheoliadau hyn i'w gwneud yn ofynnol i asesiadau penodol gael eu cwblhau'n genedlaethol, er enghraifft yr asesiadau personol ar-lein neu asesiad sylfaenol yn y dyfodol. Yn yr achosion hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn fwy rhagnodol wrth nodi pryd a sut y caiff y trefniadau hyn eu gwneud a'u gweithredu, yn ogystal â sut y dylid gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

Mae hyn yn gyson â'r dull presennol o asesu trefniadau, gyda manylion y ddarpariaeth yn cael eu nodi mewn gorchmynion a Rheoliadau a wnaed o dan y pwerau a nodir yn adran 108 o Ddeddf Addysg 2002.

Datblygwyd y rhan asesu o ganllawiau'r cwricwlwm, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, gan Grŵp Cynghori ar Asesu. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys ymarferwyr o ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig cyfrwng Cymraeg a Saesneg a lleoliadau nas cynhelir a ariennir y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal ag academyddion a chynrychiolwyr o Gonsortia Rhanbarthol, Estyn a Cymwysterau Cymru. Bydd y grŵp hwn yn rhoi cyngor ar y broses o ddatblygu Rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag ethos Cwricwlwm i Gymru a bod y gofynion yn ymarferol o safbwynt ymarferydd.

## **Adran 59(1) – Hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o gynnydd**

### **Gweithdrefn: dim gweithdrefn**

Mae hyn yn ofynnol er mwyn rhoi proses sy'n sicrhau bod deialog broffesiynol mewn ysgolion a rhyngddynt ar waith, er mwyn i ymarferwyr ddatblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn deall y broses hon er mwyn sicrhau tegwch a rhywfaint o gysondeb i ddysgwyr o ran eu cynnydd. Bwriedir iddi ddisodli'r broses gymedroli bresennol y darperir ar ei chyfer ar hyn o bryd drwy adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015.

Wrth adolygu cwricwlwm a fabwysiadwyd yn barhaus, mae'n rhaid i bennaeth roi sylw i wybodaeth a gafwyd o unrhyw drefniadau asesu a roddwyd ar waith ganddo o dan Rheoliadau a wnaed o dan adran 58. Felly, mae'r broses o hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o gynnydd yn un allweddol a fydd yn helpu ysgolion i ystyried ym mha ffordd y mae eu cwricwlwm yn cefnogi cynnydd dysgwyr.

Bwriedir iddi gyfarwyddo penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion i roi trefniadau ar waith er mwyn sicrhau y caiff proses i hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o gynnydd ei

chynnal yn eu hysgol a rhwng yr ysgol uwchradd gysylltiedig a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Byddai'r trafodaethau hyn rhwng ymarferwyr addysgu penodol yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd fel y'i mynegir yn y cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt.

Bwriedir iddi hefyd gyfarwyddo penaethiaid a chyrrff llywodraethu i sicrhau bod y staff perthnasol yn eu hysgol, yn ogystal â chynrychiolwyr o'u grŵp clwstwr o ysgolion, yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd.

Mae hefyd yn bosibl nodi'r cyfnod amser a chynnwys y cyfarfodydd. Mae hyn yn golygu, dros gyfnod priodol o amser, ond heb fod yn fwy na thair blynedd yn ôl pob tebyg, y byddai'n ofynnol i benaethiaid a chyrrff llywodraethu sicrhau bod y broses a gynhelir mewn ysgolion a rhyngddynt yn cwmpasu holl rychwant y cwricwlwm. Caiff y Rheoliadau hefyd nodi'r staff y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfodydd naill ai drwy gyfeirio at unigolion (h.y. pennaeth, Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) neu ddisgrifio arbenigedd aelod/aelodau o'r staff er mwyn sicrhau y caiff y cwricwlwm cyfan ei gwmpasu.

Gall y Rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ystyried canlyniadau'r trafodaethau hyn mewn ysgolion a rhyngddynt wrth fyfyrion ar eu cwricwlwm, eu trefniadau asesu a dysgu ac addysgu yn eu hysgol.

Ni i ddarparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir nac unedau cyfeirio disgyblion roi proses o'r fath ar waith o fewn eu hysgolion cynradd cysylltiedig. Fodd bynnag, anogir ysgolion i ymgysylltu â'u lleoliadau a ariennir nas cynhelir perthnasol a'u hannog i ddod yn aelodau o grŵp sy'n gyfrifol am feithrin ym mhob rhan o'r continwmm 3-16. Caiff y cyngor hwn i ysgolion ei nodi mewn canllawiau statudol y bydd yn rhaid i benaethiaid a chyrrff llywodraethu roi sylw iddynt. Er y caiff darparwyr a ariennir nas cynhelir eu hannog i gymryd rhan mewn proses o'r fath, ni fydd yn ofynnol iddynt wneud hynny.

## **Adran 66(1) – Dyletswydd i roi sylw i ganllawiau**

### **Gweithdrefn: dim gweithdrefn**

Mae adran 66 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar arfer swyddogaethau (h.y. pwerau a dyletswyddau) a roddir gan y Bil neu Reoliadau a wneir oddi tano. Mae'n nodi personau y mae'n ofynnol iddynt roi sylw i'r canllawiau hyn: penaethiaid, cyrrff llywodraethu ysgol, darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr addysg o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 heblaw yn yr ysgol ac awdurdodau lleol (Mae'r adran hon o Ddeddf 1996, a fewnosodwyd gan Atodlen 2 i'r Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol drefnu i addysg gael ei darparu i blant na fyddent, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu ryw reswm arall, yn cael addysg addas oni wneir darpariaeth o'r fath.).

Cyn cyhoeddi'r canllawiau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rhai sy'n briodol, yn eu barn nhw.

Mae angen pŵer cyffredinol er mwyn i Weinidogion Cymru allu cyhoeddi canllawiau perthnasol pan fo angen.

Enghraifft o hyn fydd y canllawiau ar drefniadau asesu megis y rhai a gyhoeddwyd fel rhan o ganllawiau'r cwricwlwm ym mis Ionawr 2020 'Cefnogi cynnydd dysgwyr: asesu'. Caiff canllawiau pellach ar asesu eu datblygu ar gyfer drwy broses gyd-awdura gydag ymarferwyr a gefnogir gan arbenigwyr eraill â phrofiad ac arbenigedd Disgwylir i'r canllawiau hyn fod ar gael ym mis Medi 2021.

## **Adran 67(1) – Pŵer i ddarparu ar gyfer plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad ac ati.**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwahanol ffyrdd y gallai'r sefyllfa hon godi. Gall plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, hefyd cael addysg mewn lleoliad arall o'r fath, neu gael addysg heblaw yn yr ysgol o dan Adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. (Mae'r adran hon o Ddeddf 1996, a fewnosodwyd gan Atodlen 2 i'r Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol drefnu i addysg gael ei darparu i blant na fyddent, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu ryw reswm arall, yn cael addysg addas oni wneir darpariaeth o'r fath.)

Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Rheoliadau o'r fath gael eu gwneud mewn perthynas â phlant eraill o oedran ysgol gorfodol a ddisgrifir yn y Rheoliadau eu hunain. Mae angen y ddarpariaeth hon er mwyn sicrhau y gall y Rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch darparu addysgu a dysgu i blant syn cael addysg ran amser, ond nid addysg mewn mwy nag un lleoliad. Enghraifft bosibl o hyn yw plentyn sy'n gwella ar ôl salwch ac sydd ond yn cael dwy awr o addysg yr wythnos, gartref. Ni fyddai gofynion y cwricwlwm yn y Bil yn briodol i blentyn yn y sefyllfa hon ac, felly, byddai angen gwneud darpariaeth yn y Rheoliadau ynghylch pa feini prawf y dylai'r addysg eu bodloni. Fodd bynnag, oherwydd y nifer mawr o amnewidiadau posibl, yn y cyd-destun hwn, a'r manylder y bydd angen mynd iddo, ystyrir bod angen ymdrin â'r sefyllfa hon lle y ceir dosbarth bach o blant drwy'r Rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil ei hun.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddiffiniad o addysg llawn amser mewn deddfwriaeth. Rhagwelir, wrth ragnodi rhai o'r materion a amlinellwyd uchod, y gallai fod angen diffinio hynny yn y Rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Rhagwelir y gwneir hyn drwy gyfeirio at nifer o oriau y tybir eu bod yn gyfystyr ag addysg amser llawn.

Gellir defnyddio'r pwerau hyn hefyd i wneud Rheoliadau ynghylch cynnydd plant o'r fath, y camau nesaf yn eu cynnydd a'r addysgu a'r dysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Caiff y pwerau hyn roi swyddogaethau i bennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir; corff llywodraethu ysgol; yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion;

pwylgor rheoli uned cyfeirio disgyblion; person sy'n darparu addysgu a dysgu i blentyn heblaw yn yr ysgol; darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir; ac awdurdod lleol yng Nghymru a chymhwyso, addasu neu ddatgymhwyso darpariaethau a wneir gan y Bil hwn neu oddi tano.

Yn y sefyllfaoedd hyn, disgwylir i ddarparwyr gydweithio er mwyn penderfynu sut y bydd darpariaeth mewn sawl lleoliad yn rhyngweithio er mwyn i'r dysgwr gael cwricwlwm llawn. Bydd Rheoliadau hefyd yn disgrifio mecanwaith y broses hon yn fanylach yn ogystal â phennu disgwyliadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith oherwydd y nifer posibl o wahanol achosion yn hyn o beth. Bwriedir gweithio gyda gwahanol leoliadau i ddatblygu'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael cwricwlwm llawn lle y bo'n bosibl.

## **Adran 70(1) – Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i weithredu'r Ddeddf hon yn llawn**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, mewn Rheoliadau, os byddant o'r farn bod angen gwneud hynny, neu ei bod yn briodol gwneud hynny, er mwyn rhoi'r ddarpariaeth a wneir gan y Bil, neu gan Reoliadau a wneir o dan y Bil, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, ar waith yn llawn. Gallant hefyd wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed o dan amgylchiadau o'r fath.

Er enghraifft, nid yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cychwyn yn llawn eto. Bwriedir gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 fesul cam ac, o ganlyniad i hynny, erbyn mis Medi 2022, bydd rhai plant y bydd deddfwriaeth ADY bresennol yn dal i fod yn gymwys mewn perthynas â nhw, yn hytrach na Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rydym wedi drafftio darpariaethau'r Bil ar y sail y bydd y system ADY yn gymwys (ac y bydd plant â chynlluniau AIG hefyd). Ar gyfer plant sy'n dal i fod yn rhan o'r system AAA pan ddaw darpariaethau'r Bil i rym, gellid gwneud darpariaeth drosiannol o dan y pŵer yn y fersiwn ddrafft o adran 70 o'r Bil er mwyn i ddatganiadau allu datgymhwyso cwricwlwm ysgol.